# Trefnydd Gwybodaeth Safon Uwch Daearyddiaeth

# Cysyniad Arbenigol 9: CYNRYCHIOLIAD

- Mewn iaith bob dydd, mae cynrychioliad yn golygu sut caiff rhywbeth ei ddisgrifio mewn sgwrs neu sut caiff ei ddangos mewn gwahanol gyfryngau (megis ysgrifennu a ffilm). Caiff y gair cyffredin hwn i bob golwg ei drin fel cysyniad arbenigol o fewn disgyblaeth Daearyddiaeth oherwydd mae wedi'i gysylltu'n agos â'r syniad o *ystyr* lleoliad - pwysigrwydd, gwerth, teimladau neu faterion sy'n effeithio ar y ffordd y caiff lleoliad penodol ei brisio gan unigolyn neu grŵp o bobl.

- Mae ystyron lleoliadau a chynrychioliadau'n bwysig - oherwydd caiff penderfyniadau rheolwyr ar leoliadau eu pennu, nid yn unig gan ffeithiau caled (fel diweithdra neu'r risg o lifogydd), ond hefyd gan deimladau a chredoau pobl. Pan fydd gwerth yn cael ei gysylltu â lleoliad penodol, mae'n aml oherwydd bod y dirwedd, golygfeydd neu nodweddion treftadaeth lleol yn bwysig i'r gymdeithas gyfan (neu i randdeiliaid dylanwadol). Gallai'r ymdeimlad o bwysigrwydd hwn ddod yn rhannol o sut cafodd y lleoliad ei gynrychioli mewn diwylliant poblogaidd -mewn llenyddiaeth, celf neu gerddoriaeth. Gellid dadlau bod rhan benodol o forlin yn rhy bwysig i'w cholli i'r môr oherwydd cafodd ffilm annwyl iawn ei ffilmio yno, ac felly mae pobl ym *mhobman* eisiau i'r ardal honno gael ei warchod. Fel canlyniad, gallai gwneud penderfyniadau cost a budd ynghylch gosod amddiffynfeydd môr costus ai peidio cael eu dylanwadu gan gynrychioliadau o leoedd.

- Caiff lleoedd eu cynrychioli mewn sawl ffordd wahanol gan ddefnyddio gwahanol fathau o ddata. Defnyddia rhai daearyddwyr ystadegau'r Cyfrifiad, mapiau neu ddata meintiol arall pan fyddant am ddod i wybod mwy am leoliadau astudiaethau achos. Defnyddia eraill ffynonellau data ansoddol, gan gynnwys ffilmiau, sioeau teledu, papurau newydd, nofelau, cerddi neu ganeuon. Mae'r rhan fwyaf o'r hyn a wyddom am y lleoedd a astudiwn yn dod o ystod amrywiol o gynrychioliadau mewn llawer o wahanol gyfryngau. Bydd rhai cynrychioliadau'n atgyfnerthu'r hyn rydym eisoes yn ei wybod; gallai cynrychioliadau eraill herio'n tybiaethau drwy gyflwyno barn wahanol ac anghyfarwydd.

- Ochr yn ochr â chynrychioliadau meintiol ac ansoddol, gallwn hefyd wahaniaethu rhwng cynrychioliadau ffurfiol ('swyddogol') ac anffurfiol ('answyddogol'), a hefyd rhwng disgrifiadau ffeithiol a ffuglennol. Mae'n bwysig cofio y gallai lle neu gymdeithas sy'n ymddangos mewn ffordd benodol mewn drama deledu hanesyddol fod wedi bod yn eithaf gwahanol mewn gwirionedd. Rhaid i ddaearyddwyr fod yn fwyfwy gwyliadwrus am gynrychioliadau 'newyddion ffug' ar leoedd. Mae'r portreadau hyn yn honni i fod yn onest, ond mewn gwirionedd, maent yn bwrpasol o gamarweiniol (er enghraifft, adroddiadau'r cyfryngau cymdeithasol sy'n wleidyddol eu cymhelliant sy'n gorliwio'n fwriadol y nifer o ffoaduriaid sy'n byw mewn ardal benodol).

- Mae'r syniad y gallai un person ystyried disgrifiad rhywun arall o rywle fel 'newyddion ffug' yn ein hatgoffa ni fod cynrychioliadau lleoedd yn destun dadlau'n aml iawn. Gallai gwahanol unigolion ystyried ardal, tirwedd neu ddinas benodol mewn ffyrdd cyferbyniol. Y rheswm am hyn yw bod gan bob un ohonynt brofiadau amrywiol o'r lle, neu'n barnu ei faterion, cyfleoedd a heriau mewn ffyrdd sy'n gweddu i'w profiadau, agenda neu gredoau eu hunain. Gallai adroddiad y llywodraeth bortreadu ardal wledig fel 'lle problematig' os bydd ei chyfradd di weithdra yn uchel. Fodd bynnag, gallai sioe deledu gynrychioli'r un ardal fel 'delfryd wledig' (lle delfrydol a phrydferth).

- Mae cynrychioliadau lleoedd yn newid. Cynrychiolwyd dinasoedd y DU yn negyddol ar droad yr 20fed ganrif (oherwydd llygredd a thlodi) ac yn y 1980au (pan ddaeth diweithdra i'w hanterth yn sgil sifft fyd-eang). O gymharu, cynrychiolwyd dinasoedd yn fwy cadarnhaol yn y 1950au (cyfnod o ehangu economaidd a chodi tai newydd ar ôl i'r Ail Ryfel Byd ddod i ben) ac ar droad yr 21ain ganrif (pan arweiniodd boneddigeiddio at wneud llawer o ardaloedd trefol mewnol yn ffasiynol unwaith eto). A allai cynrychioliadau o ddinasoedd newid eto oherwydd pandemig COVID? Mae'r dystiolaeth gynnar yn awgrymu bod llawer o bobl wedi 'troi eu cefn' ar fywyd trefol dan y cyfnod clo a byddai'n well ganddynt nawr symud i gefn gwlad.

## Cysylltiadau'r cysyniad

Lleoedd newidiol

Mae gan leoedd hunaniaethau gwir a chanfyddedig y gellir eu cynrychioli mewn gwahanol gyfryngau fel ffilm a llenyddiaeth. Gallai'r cynrychioliadau chwarae rôl bwysig yn y broses o ailfrandio lleoedd.

Llywodraethiant byd-eang

Caiff cynrychioliadau lleoedd, cymdeithasau ac amgylcheddau eu rhannu'n hawdd a'u lledu ar raddfa fyd-eang gan lifoedd gwybodaeth byd-eang.

Tirweddau newidiol

Mae hen ffotograffau, peintiadau a ffurfiau cynrychioliadol eraill o ddata ansoddol yn helpu gwyddonwyr i astudio newidiadau i dirwedd ffisegol dros amser.

## Meddwl fel daearyddwr am... GYNRYCHIOLIAD

1. Sut y caiff eich cymdogaeth, ardal neu ddinas leol eich hun ei chynrychioli mewn gwahanol gyfryngau? Meddyliwch am gynrychioliadau ffurfiol, anffurfiol, ffeithiol a ffu glennol.
2. Pa chwaraewyr sydd fwyaf tebygol o gael 'y gair olaf' yn y ffordd y cynrychiolir lle mewn gwahanol gyfryngau? Pwy sydd â'r pŵer mwyaf i wneud eu cynrychioliad lle nhw'r un fwyaf adnabyddus?
3. Pam y gallai un grŵp o bobl wrthwynebu cynrychioliad o le, sy'n gyfarwydd iddynt ar ffilm neu deledu? Allwch chi feddwl am unrhyw enghreifftiau ble y gallai hyn fod wedi digwydd?

## I ba raddau rydych yn cytuno â'r datganiadau canlynol?

- 'Nid yw cynrychioliadau negyddol o leoedd yn werth poeni amdanynt gan eu bod nhw ar wahân yn llwyr i'r byd go iawn'.

- 'Mae lledaeniad newyddion ffug yn golygu ei bod hi wedi mynd yn amhosibl dweud ydy cynrychioliadau lleoedd yn onest ai peidio.'